# Taith Gerdded Cefnffordd Morgannwg



Am olygfeydd dramatig a phanoramas heb eu hail



## Taith Gerdded Cefnffordd Morgannwg

TUDALEN NESAF

**Taith gerdded hirdeithiog golygfaol yn Ne Cymru yw Taith Gerdded Cefnffordd Morgannwg. Mae'n dilyn llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffyl, llwybrau fforest, tir comin a lonydd tawel ar hyd y gefnen o Barc Gwledig Margam, ger Port Talbot, drwy olygfeydd ysblennydd yr ucheldir a'r cymoedd, i Gastell Caerffili.**

Mae'r daith gerdded 33.2 milltir (53.4 km) ar hyd ymyl deheuol Pyllau Glo De Cymru yn cynnig golygfeydd panoramig o'r cymoedd geirwon cul a Bannau Brycheiniog i'r gogledd, ac ar draws y Fro i Fôr Hafren i'r de, gyda Dyfnaint a Gwlad yr Haf tu hwnt.

Mae arwyddion ar hyd y daith gyfan a gellir eu gweld ar daflenni 151, 165 ac 166 Explorer Arolwg Ordnans. Mae'r daith gerdded yn cysylltu gyda llwybrau hirdeithiog a llwybrau cylchol byr.

Ar y daith, ceir pentrefi a thafarndai yn cynnig bwyd a diod a llety hefyd. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.VisitWales.co.uk**


Mae Taith Gerdded Cefnffordd Morgannwg yn cynnwys rhai camfâu a dringfeydd egniol ag uchder cyffredinol o tua 5818 troedfedd (1774m). Dylid cymryd gofal wrth groesi priffyrdd. Argymhellir defnyddio esgidiau cryf, dillad addas i bob tywydd a map 1:25000.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael mewn amryw fannau ar hyd y daith gerdded gan gynnwys gorsafoedd rheilffordd Port Talbot Parkway (ar gyfer Parc Margam) a Chaerffili. Mae gwasanaethau bws uniongyrchol Rhifau X1 a 224 i Barc Margam o Port Talbot Parkway, neu gall ymwelwyr seiclo'r 6km i'r parc. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: **www.traveline-cymru.info**


1 Castell Margam


2 Carreg 'Bro' wrth y pulpud


3 Golygfa o Fynydd Bychan


4 Afon Llynfi o Shwt


5 Llangeinwyr a Chwm Garw


6 Golygfa o'r Gorllewin ar hyd y Gefnffordd


7 Yr Allt


8 Castell Llantrisant


9 Yr olygfa o'r Garth


10 Coed Rhiw'r Ceiliog


11 Comin Caerffili


12 Castell Caerffili

# Gwybodaeth Bellach

**Am ragor o wybodaeth am y llwybr hwn cysylltwch â:**
E-bost: RidgewayWalk@bridgend.gov.uk
Rhif Ffôn: 01656 642593

**I gael copïau y gellir eu lawrlwytho ewch i:**
www.caerdydd.gov.uk/cefngwlad

TUDALEN NESAF

TUDALEN FLAENOROL



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council
Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cardiff / Caerdydd
Strong Heritage | Strong Future – Rhondda Cynon Taf – Treftadaeth Gadarn | Dyfodol Sicr
Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Countryside Council for Wales
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government
Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili









Proffil y Daith

Ymwadiad Arolwg Ordnans: Rhifau Trwydded Arolwg Ordnans: 100023376; 100023405.




## Proffil y Daith

**Ymwadiad Arolwg Ordnans:** Rhifau Trwydded Arolwg Ordnans: 100023376; 100023405.